Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Russell Owens, Cangen y Strategaeth Wastraff
Is-adran Gwastraff ac Effeithlonrwydd Adnoddau
Llywodraeth Cymru
3ydd Llawr, Adain y De
Parc Cathays, Caerdydd
CF10 3NQ

**Ein cyf:**
**Eich cyf:** WG19064

**Dyddiad:** 2 Hydref 2013

Annwyl Russell,

## Ymateb i drydydd cam yr ymgynghoriad ar ganllawiau i gefnogi Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011
## Rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 a wnaed yn unol â Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

## Sylwadau cyffredinol

O 1 Ebrill, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod monitro dynodedig ar gyfer Targedau Adennill Awdurdodau Lleol (LART). Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol Cymru i ganfod ac adrodd ar gyrchfan y gwastraff y maent yn ei gasglu, fel mai dim ond deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu, eu paratoi i'w hailddefnyddio neu eu compostio mewn gwirionedd sy'n cael eu cynnwys wrth gyfrifo eu cyfraddau adennill. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn bwysig o ran sicrhau eglurder ynghylch pa fathau o wastraff a gweithgareddau rheoli gwastraff sy'n cyfrif tuag at LART. Felly, rydym o blaid cyhoeddi canllawiau terfynol cyn gynted ag y bo modd.

***Cwestiwn ymgynghori***
A oes angen newid unrhyw beth yn y Canllawiau drafft terfynol? Os oes, pa newidiadau a ddylid eu gwneud, a pham?

Nodwn fod y canlynol wedi ei ddileu o gwmpas y canllawiau terfynol drafft:

Ffôn/Tel 029 20466152
Ebost/Email john.fry@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

- Y defnydd o feini prawf Diwedd Oes Gwastraff (EoW) i ddiffinio cynnyrch, deunyddiau a sylweddau.
- Canlyniadau dad-ddyfrio gweddillion treulio anaerobig (AD), gan gynnwys cyfrifo cyfraddau adennill.
- Dosraniad adennill mewn perthynas â chyfleusterau Treulio Anaerobig ac ynni o wastraff (EfW) sy'n derbyn deunyddiau o ffynonellau trefol a rhai nad ydynt yn drefol.
- Ymestyn y cyfnod adrodd i WasteDataFlow.

Rydym yn cytuno bod pob un o'r uchod yn gofyn am ragor o ystyriaeth, gwaith ac eglurder. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â hyn. Byddem hefyd yn argymell bod ymestyn cyfnod adrodd WasteDataFlow yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth yn dilyn adborth a gawsom gan awdurdodau lleol Cymru yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd casglu'r holl ddata a gwybodaeth ategol yn unol â'r amserlenni adrodd presennol. Yn olaf, rydym yn argymell bod eglurhad o ofynion diwedd oes gwastraff (EoW) yn cael eu cytuno gyda ni a'u rhoi i awdurdodau lleol cyn gynted â phosibl, yn enwedig o ran eu hysbysu am y flwyddyn gynllun y mae'r gofynion hyn yn debygol o ddod i rym ac unrhyw drefniadau yn y cyfamser. Mae angen hyn i gynorthwyo awdurdodau lleol i reoli contractau tymor canolig a chontractau hirdymor a chynllunio ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol.

Ceir argymhellion penodol ar gyfer newidiadau i'r canllawiau drafft terfynol yn Nhabl 1 isod.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad, cysylltwch â John Fry: john.fry@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

**Yr eiddoch yn gywir**


Isobel Moore
Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg /Head of Business, Regulation and Economics
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Ffôn/Tel: (029) 20466118
Ffôn symudol / Mobile:07827 881838
E-bost/E-mail:
Isobel.Moore@naturalresourceswales.gov.uk
Isobel.Moore@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Tabl 1 – Diwygiadau a argymhellir i'r canllawiau drafft terfynol

| Cyfeirnod | Diwygiad a argymhellir | Rheswm |
|---|---|---|
| 3.1.9 (t7) | Newid y pennawd o "Gwastraff clinigol" i "Gwastraff clinigol **a hylendid**."<br><br>Ychwanegu “clinigol” at y paragraff cyntaf fel ei fod yn darllen "..unrhyw wastraff **clinigol** a geir..."<br><br>Yn y ddogfen Saesneg, newid y cyfeiriad yn yr ail baragraff at “Environmental Protect Act” i “Environmental **Protection Act**” | I sicrhau bod y derminoleg a ddefnyddir yn eglur.<br><br>I ddarparu eglurder ac i wahaniaethu’n llawn rhwng gwastraff clinigol (paragraff cyntaf) a gwastraff hylendid (yr ail baragraff).<br><br>Diwygiad teipograffyddol |
| 3.2.1(t8-9) | Tynnu’r paragraff olaf sy’n cyfeirio at ddiwedd oes gwastraff ar gyfer IBA, APCR a ‘Panel Diffinio Gwastraff’. | Ar hyn o bryd nid oes Protocolau Ansawdd ar gyfer IBA ac APCR a gallai hyn fod yn wir ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd. Mae'r cyfeiriad penodol at feini prawf diwedd oes gwastraff hefyd yn anghyson ac yn ddryslyd gan fod cyfeiriadau at ddiwedd oes gwastraff wedi cael eu dileu ar gyfer pob math arall o ddeunydd tra bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwaith pellach ar egluro'r defnydd o feini prawf diwedd oes gwastraff. Felly, rydym yn argymell bod IBA ac APCR yn cael eu cynnwys gyda phob math arall o ddeunydd wrth baratoi eglurhad ychwanegol ar gyfer defnyddio meini prawf Diwedd Oes Gwastraff (EoW) at ddibenion LART. Hefyd, nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru banel diwedd oes gwastraff i dderbyn neu wneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw geisiadau diwedd oes gwastraff. |

Ffôn/Tel 029 20466152
Ebost/Email john.fry@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.3 (t9) | Rydym yn argymell bod yr adran "Diffinio compostio a threulio anaerobig" yn cyfeirio'n benodol at gynnyrch tebyg i gompost. Argymhellir diffinio cynnyrch tebyg i gompost yn y canllawiau gan egluro pa fathau y gellid eu cyfrif at ddibenion LART. | Er mwyn darparu eglurhad i awdurdodau lleol bod "compost" a "cynnyrch tebyg i gompost" yn wahanol ac i amlinellu a oes unrhyw amgylchiadau lle gallai cynnyrch tebyg i gompost a gynhyrchir o ffynonellau trefol cymysg gyfrif mewn blynyddoedd cynllun LART. Gofynnir am yr eglurhad hwn wrth i'r meini prawf diwedd oes gwastraff i ddiffinio cynhyrchion, deunyddiau a sylweddau gael eu datblygu i gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ystod blynyddoedd cynllun LART yn y cyfamser. |
| 3.3.7 (t10-11) | Diwygio'r pennawd i ddarllen "Gwastraff clinigol **a hylendid**"<br><br>Argymhellir tynnu'r paragraff cyntaf a'r cyfeiriad at y cod gwastraff nad yw'n wastraff drefol gan roi'r testun canlynol yn ei le: "Gall rhai mathau o wastraff hylendid gael eu hailgylchu. Y brif enghraifft o hyn yw cynhyrchion hylendid amsugnol (AHP) megis clytiau a phadiau ar gyfer gwlychu/baeddu." | I gyfateb â'r argymhelliad ar gyfer 3.1.9 uchod.<br><br>Mae hyn yn symleiddio'r testun ac yn lleihau'r perygl o ddrysu'r diffiniadau ar gyfer gwastraff clinigol a gwastraff gofal iechyd y dylid eu hystyried yn ddau beth ar wahân a gwahanol. |

Ffôn/Tel 029 20466152
Ebost/Email john.fry@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

| | | |
|---|---|---|
| 3.3.8 (t11) | Diwygio'r canllawiau ar ailgylchu deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gylïau er sicrhau cysondeb gyda'r diffiniad yn 3.1.10.<br><br>Mae angen mwy o eglurder o ran sut y gellid 'compostio' cyfran organig deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd gan gydymffurfio â LART a gofynion rheoleiddio fel ei gilydd. | Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn y paragraff (deunydd wedi'i sgubo oddi ar strydoedd a dail wedi disgyn) a'r pennawd (deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gylïau) yn wahanol. Dylid dileu'r cyfeiriad at ddail wedi disgyn gan eu bod yn un elfen benodol o gyfansoddiad deunydd wedi'i sgubo oddi ar strydoedd a gwastraff mewn gylïau yn hytrach na ffrwd gwastraff ar wahân. Mae deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd yn ffrwd gwastraff cymysg sy'n cynnwys elfennau a allai fod yn beryglus. Mae angen eglurhad wedi'i ddiweddaru ar Awdurdodau Lleol ynghylch sut y gellid adennill holl elfennau deunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gylïau ar gyfer LART o fewn y gofynion rheoliadol cyfredol. Felly, rydym yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddaru cyngor y llywodraeth/awdurdod rheoliadol ar y cyd ar ddeunydd wedi'i sgubo oddi ar ffyrdd a gwastraff mewn gylïau |
| 3.3.9 (t11) | Argymhellir ychwanegu'r frawddeg a ganlyn at yr adran hon yn y canllawiau:<br><br>"Er mwyn i wastraff pren gyfrif tuag at Dargedau Adennill Awdurdodau Lleol rhaid iddo fynd drwy'r weithred adennill mewn safleoedd addas, yn dibynnu ar a yw'n bren sydd wedi'i drin neu heb ei drin yn unol â | Mae angen hyn yn y canllawiau i egluro na ddylid defnyddio gwastraff pren 'sydd wedi'i drin' fel rhan o waith ailbrosesu ac adennill pren 'sydd heb ei drin'. Er enghraifft, dim ond gwastraff pren sydd heb ei drin a ystyrir yn addas i'w gompostio. |

Ffôn/Tel 029 20466152
Ebost/Email john.fry@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

| | | |
|---|---|---|
| 4.2 (t12) | Diwygio geiriad yr ail bwynt bwled ar gyfer cyrchfannau.<br><br>Dylai'r trydydd pwynt bwled ar gyfer cyrchfannau gyfeirio at adennill ynni hefyd. | Mae'r geiriad yn awgrymu mai adennill ynni fyddai'r cyrchfan ond nid yw hyn yn wir ar gyfer yr holl dunelli gan y gallai IBA a metelau fynd i safle tirlenwi neu gael eu hadennill yn dilyn proses adennill ynni a llosgi heb adennill ynni.<br><br>Mae rhywfaint o wastraff awdurdod lleol a allforir yn cael ei adennill dramor i greu ynni ar ffurf Tanwydd sy'n Deillio o Sbwriel. |
| 4.3 (t14)<br><br>4.3 (t16) | Yn y ddogfen Saesneg, newid "disposa" i "disposal" a "thence" i "then"<br><br>Tynnu'r ddolen at wefan yr awdurdod monitro o'r canllawiau a rhoi'r testun a ganlyn yn ei lle: "Gallwch gael canllawiau pellach ar weithdrefnau samplu gan yr Awdurdod Monitro." | Diwygiadau teipograffyddol.<br><br>Rydym wrthi'n datblygu ein gwefan ac mae'r cyfeiriad hwn at wefan Asiantaeth yr Amgylchedd yn debygol o newid yn y dyfodol agos. Felly, byddai disodli'r ddolen gyda'r testun a awgrymir yn sicrhau na fydd y cyfeiriad hwn yn anghywir maes o law. |
| 4.4 (t16) | Mae angen i'r trydydd paragraff egluro mai dim ond tunelli a nodir yn erbyn "Cyrchfan sy'n cydymffurfio â'r **Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill Statudol**" sy'n cael eu cynnwys yn y cyfanswm adennill. | Mae gan WasteDataFlow ddau gategori o gyrchfannau yng nghwestiwn 100.<br><u>Nid</u> yw'r rhai a nodir o dan" Rhai <u>nad ydynt</u> yn cydymffurfio â'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi a'r Targedau Adennill Statudol" yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo cyfraddau adennill awdurdodau lleol. |

Ffôn/Tel 029 20466152
Ebost/Email john.fry@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Ty Cambria, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English